

RHAN 5: CANLLAWIAU AR GYFER ASESU EFFEITHIAU TIRWEDD CRONNUS A GWELEDOL

- 5.1 Er bod yr astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti tirwedd hon wedi adnabod y gall rhannau o'r Parc Cenedlaethol ddarparu ar gyfer ynni adnewyddadwy, mastiau telathrebu a datblygiadau twristiaeth, rhaid bod yn ofalus i atal effeithiau annerbyniol (arwyddocaol) tirluniadol cronrus ac effeithiau gweledol sy'n deillio naill ai o ddatblygiadau lluosog o'r un math neu ddatblygiadau lluosog o wahanol fathau.
- 5.2 Mae'r maes hwn sydd a wnelo asesu'r dirwedd a'r gweledol yn esblygu ac nid oes unrhyw ddull rhagnodedig gan fod y materion yn dibynnu ar nodweddion penodol y datblygiadau arfaethedig a lleoliad y maent yn cael eu lleoli. Nid yw'n bosibl i ddarparu canllawiau generig ar niferoedd neu bellter rhwng datblygiadau arfaethedig ac fe ddylai pob cynnig gael eu hystyried ar sail achos wrth achos. Cyflawnir hyn fel arfer trwy asesiad tirwedd cronrus ac asesiad gweledol fel rhan o'r broses asesu effaith amgylcheddol (AEA). Mae'r gofyniad ar gyfer ystyried effeithiau tirwedd cronrus ac effeithiau gweledol yn fater i gytuno arno yn ystod cam cwmpasu'r asesiad drwy drafod gyda'r awdurdod cynllunio perthnasol a'r cyrff ymgynghori perthnasol.
- 5.3 Dylai canlyniadau'r asesiad o dirwedd cronrus ac effeithiau gweledol unrhyw ddatblygiad gael eu hadolygu yn erbyn y strategaeth tirwedd a gwrthrychol ar gyfer yr ACT / Ardaloedd Cymeriad Tirwedd y mae'n gorwedd ynddynt, yn ogystal â'r rhai ar gyfer Ardaloedd Cymeriad Tirwedd cyfagos. Mae hyn yn bwysig o ran penderfynu a yw'r datblygiad arfaethedig (ar y cyd â / neu fel ychwanegiad at yr amrywiol ddatblygiadau eraill) yn cyd-fynd ai pheidio gyda'r strategaeth tirwedd a nodwyd ar gyfer yr ACT neu a fyddai'n gwrthdaro â'r strategaeth.

Diffiniad o Effeithiau Tirwedd Cronrus a Gweledol

- 5.4 Mae'r asesiad o effeithiau tirwedd a chronrus yn delio gyda'r effeithiau gweledol datblygiad arfaethedig wrth ryngweithio gydag effeithiau datblygiad (au) arall (sy'n gysylltiedig â neu ar wahân i'r datblygiad arfaethedig). Mae hyn er mwyn cydnabod y gall effeithiau tirwedd a gweledol cyfunol cyffredinol nifer o ddatblygiadau tebyg wedi eu crynhoi mewn un ardal fod yn fwy na chyfanswm yr effeithiau o'r un datblygiadau petaent yn cael eu hystyried yn unigol
- 5.5 Mae GLVIA3²⁷ (para. 7.3) yn cyfeirio at ddiffiniad Scottish Natural Heritage (SNH) o effeithiau cronrus fel y'i gosodir yn eu papur 2012²⁸:
- **Effeithiau cronrus yw** 'the additional changes caused by a proposed development in conjunction with other similar developments or as the combined effect of a set of developments, taken together' (SNH, 2012: 4);
 - **Effeithiau cronrus tirwedd yw** effeithiau a all 'can impact on either the physical fabric or character of the landscape, or any special values attached to it' (SNH, 2012: 10); a
 - **Effeithiau cronrus gweledol yw** effeithiau a all gael eu hachosi ac all gael eu hachosi trwy gyfrwng gwelededd cyfunedig, h.y., 'occurs where the observer is able to see two or more developments from one view-point' and/or sequential effects which 'occur when the observer has to move to another viewpoint to see different developments' (SNH, 2012: 11). (CAEG3 / GLVIA3 Paragraff7.3)

Gofyniad i Asesu Effeithiau Tirwedd Cronrus a Gweledol

- 5.6 Mae'r asesiad o effeithiau cronrus wedi ei osod o fewn fframwaith AEA. Mae'r AEA yn ymagwedd drefnus tuag at gynnal asesiad o'r effeithiau sylweddol tebygol y gallai prosiect arfaethedig ei gael ar yr amgylchedd; gan alluogi'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gymryd yr effeithiau hyn i ystyriaeth wrth ystyried ceisiadau.
- 5.7 Mae angen AEA bob amser ar gyfer datblygiadau sy'n disgyn o fewn Atodlen 1 o'r Rheoliadau; fodd bynnag, nid yw'r un o'r datblygiadau a ystyrir yn yr astudiaeth hon yn dod o fewn y categori hwn.
- 5.8 Efallai y bydd angen AEA ar gyfer datblygiadau sydd wedi eu lleoli mewn, neu'n rhannol mewn 'ardal sensitif' neu sy'n dod o fewn Atodlen 2 o'r Rheoliadau ac sy'n rhagori ar y trothwyon perthnasol. Mae datblygiadau

²⁷ Landscape Institute and Institute for Environmental Management and Assessment (2013) Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment, 3rd Edition, Routledge

²⁸ SNH (2012) Assessing the cumulative impact of onshore wind energy development, Inverness: Scottish Natural Heritage

Atodlen 2 yn cynnwys, gosodiadau cynhyrchu ynni megis ffermydd gwynt, a datblygiad twristiaeth gyda'r trothwyon canlynol:

- 'The threshold for wind energy developments is more than 2 turbines, or where the hub height of any turbine or any other structure exceeds 15 metres (Regulation 2(1))
- The threshold for tourist development in relation to **static caravan/chalet parks** (permanent camp sites and caravan sites) is where the area of the development exceeds 1 hectare, or where the area of development exceeds 0.5 hectare if it is a permanent caravan site with more than 200 pitches²⁹

- 5.9 Lle byddai datblygiad yn fwy na'r trothwyon hyn mae angen i'r cynnig gael ei sgrinio gan yr awdurdod cynllunio i benderfynu a yw effeithiau sylweddol yn debygol ac felly a oes angen AEA. Mae angen i brosiectau a restrir yn Atodlen 2 sydd wedi eu lleoli mewn, neu'n rhannol mewn ardal sensitif gael eu sgrinio hefyd, hyd yn oed os ydynt yn is na'r trothwyon neu os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf.
- 5.10 Nid yw **Datblygiad mast symudol (isadeiledd telathrebu)** wedi ei rhestr o dan Atodlen 2 ychwaith ac felly mae hyn y tu allan i'r Rheoliadau; fodd bynnag, efallai y bydd datblygiadau o'r fath angen caniatâd cynllunio yn arbennig o fewn y Parc Cenedlaethol. Yna byddai'r awdurdod cynllunio lleol benderfynu pa lefel o asesiad sydd ei angen.
- 5.11 Os yw datblygiad arfaethedig yn golygu fod AEA yn ofynnol, yna mae Atodlen 4, Rhan 1 o'r Rheoliadau AEA yn nodi : 'a description of the likely significant effects of the Development on the environment, which should cover the direct effects and any indirect, secondary, cumulative, short, medium and long term, permanent and temporary, positive and negative effects of the development.....'³⁰
- 5.12 Mae cylchlythyr 02/99, sy'n darparu arweiniad ar y Rheoliadau yn datgan: 'in judging.... the effects of a development....local planning authorities should always have regard to the possible cumulative effects with any existing or approved development' (paragraff 46).
- 5.13 Unwaith y bydd wedi cael ei sefydlu bod angen AEA, dylid gwneud cais am farn gwmpasu gan yr awdurdod cynllunio lleol i benderfynu pa bynciau y dylid eu hystyried o fewn yr Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol; bydd hyn yn penderfynu a oes angen asesiad tirwedd ac effaith weledol (ETEG) ac asesiad tirwedd cronol ac effeithiau gweledol. Mae'n ofynnol cael asesiadau manwl o'r effeithiau tirwedd cronol ac effeithiau gweledol pan ystyrir y gallai'r cynnig arwain at effaith gronnu sylweddol a allai ddylanwadu ar y penderfyniad cynllunio yn y pen draw.
- 5.14 Mae'n bwysig nodi bod CAEG3 yn argymhell er y gall asesiadau tirwedd cronol ac asesiad effeithiau gweledol fod yn berthnasol i unrhyw fath o ddatblygiad, er mwyn cadw'r dasg yn rhesymol a chymesur, mae'n bwysig canolbwyntio ar effeithiau sylweddol tebygol; 'the emphasis on EIA is on likely significant effects rather than on comprehensively cataloguing of every conceivable effect that might occur'³¹.
- 5.17 Nid yw arwyddocâd yn absoliwt a gellir ddim ond ei ddiffinio mewn perthynas â phob datblygiad a'i leoliad. Mae CAEG3 yn nodi nad oes unrhyw reolau pendant, ond yn gyffredinol:
- *'The most significant cumulative landscape effects are likely to be those that would give rise to changes in the landscape character of the study area of such an extent as to have major effects on its key characteristics and even, in some cases, to transform it into a different landscape type.'* (para 7.28)
 - *'Higher levels of significance may rise from cumulative visual effects related to developments that are in close proximity to the main project and are clearly visible together in views.'*
 - *Developments that are highly inter-visible with overlapping ZTVs - even though the individual developments may be at some distance from the main project and from individual viewpoints, and when viewed individually not particularly significant, the overall combined effect on a viewer at a particular viewpoint may be more significant.'* (para 7.38)

²⁹ <http://planningguidance.planningportal.gov.uk/blog/guidance/environmental-impact-assessment/considering-and-determining-planning-applications-that-have-been-subject-to-an-environmental-impact-assessment/annex/>

³⁰ Assessing the Cumulative Impact of Onshore Wind Energy Developments', Scottish Natural Heritage, March 2012

³¹ GLVIA3 Paragraph 7.5

Canllawiau wedi'u Cyhoeddi

5.18 Mae tair prif ffynhonnell o ganllawiau a gyhoeddir ar gyfer gwneud asesiad o effeithiau tirwedd cronrus a gweledol:

- *Scottish Natural Heritage (March 2012) Assessing the Cumulative Impact of Onshore Wind Energy Developments*
- *Landscape Institute and the Institute for Environmental Management and Assessment (IEMA) (Third Edition 2013) Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment (GLVIA3)*
- *Nodyn Canllaw 3 LANDMAP : Canllaw ar gyfer Cymru, 'Using LANDMAP for Landscape and Visual Impact Assessment of Onshore Wind Turbines' (May 2013)*

Cymhwysio'r Canllaw

5.19 Gall y datblygiadau a ystyrir yn yr astudiaeth hon yn fras gael eu torri i ddau 'ffurf' o ddatblygiad, datblygiad 'fertigol' a datblygiad 'llorweddol' fel a ganlyn:

Datblygiad Fertigol	Datblygiad Llorweddol
Datblygiad Ynni Gwynt	
	Datblygiad Maes Carafanau Statig / Cabanau
Datblygiad Mast Symudol	

5.20 Gall y dull dangosol a amlinellir isod gael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer asesu'r dirwedd cronrus ac effeithiau gweledol unrhyw un o'r datblygiadau hyn ac mae'n nodi unrhyw wahaniaethau yn y patrwm neu ddull gweithredu rhwng yr asesiad o ddatblygiadau 'fertigol' a 'llorweddol'.

5.21 Dylai'r asesiad o dirwedd cronrus ac effeithiau gweledol ar gyfer datblygiadau 'fertigol' yn fras dilyn y canllawiau a gynhrychwyd gan SNH (Assessing the Cumulative Impact of Onshore Wind Energy Developments) ac un a nodir o fewn Canllawiau ar gyfer Asesiad Effaith Gweledol 3ydd (CAEG3) a Nodyn 3 Canllaw LANDMAP. Nid oes unrhyw ganllawiau penodol ar gyfer asesu'r effeithiau tirwedd cronrus ac effeithiau gweledol datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae neu feysydd carafannau statig / cabanau felly argymhellir y dylai asesiad o ddatblygiad 'llorweddol' ddilyn y canllawiau a nodir o fewn CAEG3

5.22 Dylai cwmplas yr asesiad cronrus (lefel y manylion sy'n ofynnol) gael ei gytuno gyda'r awdurdod cynllunio lleol, a bydd yn dibynnu ar sensitifrwydd y safle, natur y cynnig a'r datblygiadau eraill a ganiatawyd a gweithredol eraill a'r potensial am effeithiau cronrus arwyddocaol (gan gofio y dylai'r asesiad barhau i fod yn briodol ac yn gymesur).

Yr Ardal Astudio

5.23 Gall sefydlu'r ardal yr astudiaeth ddbynnu ar nifer o ffactorau, fel a ganlyn:

- Maint cyffredinol a graddfa'r datblygiad newydd arfaethedig
- Maint a lleoliad datblygiadau presennol ac arfaethedig eraill yn y dirwedd
- Topograffeg y dirwedd lle y'i cynigir
- Sensitifrwydd y dirwedd a'r dirwedd cyfagos neu dirweddau sy'n bellach

5.24 Y dasg gychwynnol wrth ddiffinio ardal astudio yw nodi pob datblygiad mawr (gweithredol, wedi cael caniatad neu yn cael ei / rhan o gynllunio) a all ryngweithio gyda'r datblygiad arfaethedig, sy'n gallu arwain at effeithiau tirwedd cronrus ac effeithiau gweledol posibl.

5.25 Er mwyn gwneud hyn, mae angen adnabod y pellter lle byddai'r effeithiau sylweddol yn debygol o ddigwydd ar gyfer pob math o ddatblygiad. Mae hyn oherwydd bod y pellter rhwng y prif ddatblygiad arfaethedig ac unrhyw ddatblygiad arall sydd i'w cynnwys yn yr asesiad cronrus yn effeithio ar faint yr effeithiau cronrus a all ddigwydd ac o ganlyniad y farn ynghylch eu harwyddocâd.

- 5.26 Esbonnir hyn ymhellach isod drwy gyfeirio at barthau dylanwad – ardaloedd sydd fwyaf tebygol o weld effeithiau tirwedd a gweledol arwyddocaol.
- 5.27 Dylid cytuno â'r awdurdod cynllunio lleol ar ddechrau'r astudiaeth ynglŷn â'r math o ddatblygiad i'w ystyried ynghyd â'r parthau dylanwad. Fel yr amlinellir yn Nodyn Cyfarwyddyd LANDMAP 3 (Mai 2013), nid yw o reidrwydd yn golygu y dylai asesiadau cronrus o ddatblygiadau ynni gwynt ond ystyried datblygiadau ynni gwynt gweithredol neu gymeradwy eraill, gall yr asesiadau hyn hefyd ystyried mathau fertigol eraill o ddatblygiad megis llinellau uwchben yn ogystal â datblygiadau llorweddol megis solar ffotovoltaig ar raddfa caeau lle gofynnir am hyn neu y cytunir â'r awdurdod cynllunio lleol.
- 5.28 *'A CLVIA should describe and assess any additional and combined cumulative effects of a potential wind energy development (wind turbines and associated infrastructure) on the landscape when considered in conjunction with other existing or consented wind energy developments or those "in planning", and potentially other non-energy developments.'* Adran 8, Nodyn Cyfarwyddyd LANDMAP 3 (Mai 2013)
- 5.29 Ar gyfer datblygiadau 'fertigol' gall ardaloedd yr astudiaeth ymestyn i ddechrau dros bellteroedd cymharol fawr. Mae'r pellteroedd a argymhellir ar gyfer y parthau gweledd damcaniaethol (ZTV) ar gyfer tyrbinau gwynt o wahanol uchder wedi'u hamlinellu yn Nhabl 2 o gyhoeddiad SNH 'Visual Representation of Windfarms, Good Practice Guidance' (2006); mae'r rhain yn dangos y gallai ardaloedd yr astudiaeth ymestyn hyd at 35 km. Gellid defnyddio'r tabl hwn fel man cychwyn ar gyfer sefydlu ardaloedd yr astudiaeth ar gyfer yr asesiadau cronrus o'r datblygiadau 'fertigol'; fodd bynnag, er mwyn cadw'r dasg yn gymesur argymhellir eu bod yn cael eu gostwng i 'barthau dylanwad' fel y mae dadansoddiad manylach yn pennu ardaloedd lle mae'n rhesymol ystyried y gall effeithiau sylweddol ddigwydd.
- 5.30 Ar gyfer datblygiadau 'llorweddol' mae'n rhesymol tybio y byddai ardal yr astudiaeth yn llai mewn cymhariaeth gan fod effeithiau tirwedd a gweledol datblygiadau o'r fath yn annhebygol o ymestyn dros bellteroedd o'r fath. Gall ardaloedd astudio ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad fod hyd at 10 km yn y lle cyntaf, ond eto gallai cynydd dadansoddiad manylach ostwng y meintiau i ganolbwyntio ar 'barthau dylanwad' lle mae'r effeithiau sylweddol yn fwyaf tebygol o ddigwydd.

Parth Cronrus o Weledd Damcaniaethol

- 5.31 Mae parth cronrus o weledd damcaniaethol (CZTV) yn aml yn declyn defnyddiol a ddefnyddir i lywio'r asesiad o effeithiau gweledol cronrus. Pan ystyrir ei fod yn fuddiol, dylid cynhyrchu parth o weledd damcaniaethol (ZTV) ar gyfer y prif ddatblygiad sy'n cael ei gynnig. Yna gellir ei gymharu ar gynllun â'r ZTVs ar gyfer y datblygiadau eraill sy'n cael eu hystyried (yn aml bydd y ZTVs hyn wedi'u cynhyrchu fel rhan o'r EIA / cais cynllunio ar gyfer y datblygiadau eraill - os nad yw hyn yn wir mae'n rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â pha mor ddefnyddiol fyddai cynhyrchu ZTV newydd ar gyfer pob un o'r datblygiadau eraill). Yna gellir cyfuno'r ZTVs gwahanol i ddadansoddi lle mae'n debygol y gwelir rhyngweithio rhwng datblygiadau a'i gyflwyno fel CZTV neu gyfres o CZTVs gwahanol i helpu i egluro'r gwahanol senarios cronrus sy'n cael eu hasesu (gweler isod). Gall y teclyn hwn hefyd gael ei ddefnyddio i fireinio ardal gyffredinol yr astudiaeth.

Senarios Cronrus

- 5.32 Pan fydd nifer o gynigion datblygu gwahanol dan sylw, bydd asesiadau o effeithiau tirwedd a gweledol cronrus yn aml yn ystyried amrywiaeth o senarios.
- 5.33 Ar gyfer pob senario dylai'r CLVIA asesu effeithiau'r cynllun arfaethedig ar y cyd â'r datblygiadau eraill a nodi'r cyfraniad y mae'r cynllun arfaethedig yn ei wneud i faint yr effaith gronrus. Mae GLVIA3 yn datgan *'agreement should be reached about whether the cumulative effects assessment is to focus primarily on the additional effects of the main project under consideration, or on the combined effects of all the past, present and future proposals together with the new project.'* Paragraff 1.18, GVLIA
- 5.34 Dylid cytuno ar y senarios a'r ymagwedd tuag at eu hasesu gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

Asesiad o Effeithiau Tirwedd Cronrus

- 5.35 Mae'r asesiad o effeithiau tirwedd cronrus yn ymwneud â chyfanrwydd yr effeithiau posibl ar y dirwedd, gan ystyried cyfuniad cyffredinol yr effeithiau o adeiladu a gweithrediad y datblygiad arfaethedig ynghyd â datblygiadau tebyg eraill fel y cyfunir yn y gwahanol senarios cronrus. Gall yr effeithiau hyn ddeillio o newidiadau yng ngwneuthuriad, agweddau esthetig a chymeriad cyffredinol y dirwedd mewn manau penodol, a ddaw yn sgil cyflwyno elfennau newydd neu gael gwared neu ddifrodi'r rhai presennol.

- 5.36 Dylai'r broses o nodi ac asesu arwyddocâd yr effeithiau tirwedd cronus ddilyn yr un dull ag a gymerir yn y LVIA. Dylai pwyslais yr asesiad, fodd bynnag, bob amser fod ar y datblygiad arfaethedig a sut neu pa un a fyddai'n ychwanegu at (neu'n cyfuno â) datblygiadau eraill sy'n cael eu hystyried i greu neu gynyddu maint yr effaith sylweddol ar y dirwedd.
- 5.37 Wrth ffurfio barn, dylai'r asesiad ystyried:
- Rhagueddiad y dirwedd i'r mathau o ddatblygiad sy'n cael eu hystyried.
 - Y gwerth sydd ynghlwm wrth y dirwedd, sy'n adlewyrchu ei statws dynodiad a chydrannau gwerthfawr eraill o'r dirwedd.
 - Natur neu faint yr effeithiau, o ran maint ac ardal ddaearyddol.
- 5.38 Yna dylid asesu arwyddocâd yr effeithiau tirwedd cronus a bennwyd trwy ddefnyddio barn broffesiynol, sy'n seiliedig ar gyfuniad o'r ffactorau uchod a pa un ai a yw'r newid yn debygol o fod dros dro neu'n barhaol, yn dymor hir neu fyr.
- 5.39 Nid yw arwyddocâd yn absoliwt ac ni ellir ond ei ddiffinio mewn perthynas â phob datblygiad a'i leoliad. Mae GLVIA3 yn nodi nad oes unrhyw reolau pendant, ond yn gyffredinol:
- *'Major loss or irreversible negative effects over an extensive area, on elements and/or aesthetic and perceptual aspects that are key to the character of nationally valued landscapes are likely to be of the greatest significance.'*
 - *'Reversible negative effects of short duration, over a restricted area, on elements and/or aesthetic and perceptual aspects that contribute to but are not key characteristics of the character of landscapes of community value are likely to be of least significance and may, depending on the circumstances, be judged as not significant.'*
 - *'Where assessment of significance place landscape effects between these extremes, judgements must be made about whether or not they are significant, with full explanations of why these conclusions have been reached.'* (para.5.56)
- 5.40 Mae GLVIA3 hefyd yn nodi:
- 5.41 *'the most significant cumulative landscape effects are likely to be those that would give rise to changes in the landscape character of the study area of such an extent as to have major effects on its key characteristics and even, in some cases, to transform it into a different landscape type. This may be the case where the project itself tips the balance through its additional effects. The emphasis must always remain on the main project being assessed and how or whether it adds to or combines with the others being considered to create a significant cumulative effect.'* para. 7.27
- 5.42 Argymhellir bod yr asesiad yn ystyried yr effeithiau posibl ar dirweddau dynodedig yn y lle cyntaf (gan dalu sylw arbennig i nodweddion arbennig unigol yr ardaloedd hynny), cyn mynd ati i asesu'r effeithiau cronus ar y gwahanol Ardaloedd Cymeriad Tirwedd sy'n debygol o gael eu heffeithio.
- Asesiad o Effeithiau Gweledol Cronus**
- 5.43 Mae'r asesiad o effeithiau gweledol cronus yn ymwneud â phennu ac asesu'r effeithiau ychwanegol ar olygfeydd pobl sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig pan y'i gwelir ynghyd â'r prosiectau eraill fel y nodwyd yn y senarios cronus gwahanol. Byddai'r effeithiau hyn yn deillio o newidiadau yng nghymeriad a chynnwys y golygfeydd a brofir o ganlyniad i gyflwyno elfennau newydd neu symud neu ddifrodi'r rhai presennol.
- 5.44 Mae'r broses o bennu ac asesu arwyddocâd yr effeithiau gweledol cronus yn dilyn yr un dull ag a gymerir yn y LVIA. Dylai pwyslais yr asesiad, fodd bynnag, bob amser fod ar y datblygiad arfaethedig a sut neu pa un a fyddai'n ychwanegu at, neu'n cyfuno â, datblygiadau eraill sy'n cael eu hystyried i greu neu gynyddu maint yr effaith gweledol sylweddol.
- 5.45 Dylai'r asesiad gweledol cronus gael ei gefnogi gan fframiau gwifren cronus a osodir o dan ffotograffau a / neu ffotogyfosodiadau a baratowyd o olygfannau allweddol i ddangos maint yr effeithiau gweledol cronus (gall y rhain hefyd fod yn ddefnyddiol i ddangos natur a maint y newid cronus i'r dirwedd).
- 5.46 Dylid dewis nifer o safbwyntiau cynrychioliadol a / neu waethaf a chytuno arnynt â'r awdurdod cynllunio lleol i ddangos yr effeithiau gweledol cronus posibl sy'n deillio o'r prif ddatblygiad sy'n cael ei asesu, ar y cyd â

datblygiadau eraill o fewn y gwahanol senarios. Dylid dewis golygfannau yn benodol i ddangos yr effeithiau cronus.

- 5.47 Dylai'r derbynyddion gweledol gael eu categorio o ran eu pwysigrwydd a'u tueddiad i newid. Yna dylid llunio barn ar faint yr effeithiau gweledol, ac ystyried y modd y byddai unrhyw olygfeydd dilyniannol yn cael eu profi o ffyrdd a llwybrau pwysig fel Llwybrau Beicio Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru.
- 5.48 Mae arwyddocâd effeithiau'r datblygiad ar olygfeydd yn ymwneud â natur a sensitifrwydd y derbynydd, nodweddion y datblygiad a gynigir a graddau, natur a nodweddion y golygfeydd, sydd ei hun yn adlewyrchiad o gymeriad y dirwedd.
- 5.49 Mae GLVIA3 (para. 7.38) yn nodi yr ystyrir bod lefelau uwch o ran arwyddocâd yn deillio fel arfer o:
- 'Developments that are in close proximity to the main project and are clearly visible together in views from the selected viewpoints.
 - Developments that are highly inter-visible with overlapping ZTVs – even though the individual developments may be at some distance from the main project and from individual viewpoints, and when viewed individually not particularly significant, the overall combined cumulative effect on a viewer at a particular viewpoint may be more significant.'
- 5.50 Argymhellir bod yr asesiad yn ystyried yr effeithiau posibl ar olygfeydd i dirweddau dynodedig ac ohonynt yn y lle cyntaf cyn mynd ati i asesu'r effeithiau gweledol cronus sy'n seiliedig ar olygfannau dethol, ac asesiad o'r effeithiau gweledol cronus ar wahanol dderbynyddion ar hyd y ffordd (â'r pwyslais ar bennu'r effeithiau sylweddol tebygol).

Asesu Arwyddocâd

- 5.51 Dylid asesu arwyddocâd yr effeithiau tirwedd a gweledol cronus a bennwyd trwy ddefnyddio barn broffesiynol, yn seiliedig ar gyfuniad o sensitifrwydd y derbynydd tirwedd / gweledol, maint y newid a pa un ai a yw'r newid yn debygol o fod dros dro neu'n barhaol, yn dymor hir neu fyr. Dylai'r asesiad cronus nodi pa effeithiau y tybir eu bod yn sylweddol (yng nghyd-destun y Rheoliadau EIA ar gyfer datblygiad EIA) yn ogystal ag a ydynt yn niweidiol neu'n fuddiol.